

BATHAFARN BACH

CYLCHGRAWN HANES YR EGLWYS FETHODISTAIDD YNG NGHYMRU

Rhif 7 – Haf 2016

Dr William Bramwell Davis

Roedd teulu William Bramwell Davis yn hanu o Gymru. Morwr oedd ei daid, a gollodd ei fywyd ar fwrdd llong yr oedd ef yn hwylio arni ar adeg storm yng nghanol y cefnfor. Roedd ei daid o ochr ei fam yn frodor o Sir Aberteifi, sef y Parch. John Jones a fu'n weinidog gyda'r Methodistiaid. Yn y Gwanwyn, 1818, ymfudodd gyda'i deulu a chymdogion i'r America, ac wedi taith ystormus o chwe wythnos glaniont yn Alexandria, Virginia. Gan mai Ohio oedd nod eu taith prynont wageni a cheffylau i gludo eu nwyddau dros fynyddoedd yr Alleghenies i Pennsylvania, ac yna teithio gweddill y ffordd gyda cwch nes cyrraedd Cincinnati, Ohio.

Yn Llanbadarn, Sir Aberteifi, y ganwyd ei dad, sef William Davis, yn 1793. Yr oedd Ann (Jones) Davis, ei fam, yn hanu o'r un lle â'i phriod, a ganwyd hithau yn 1797. Ar ôl iddynt briodi ac ymfudo prynont fferm yn ardal Paddy's Run, Swydd Butler, Ohio. Yn y cartref hwnnw ganwyd pedwar o blant sef John, Mary, Timothy a Margaret. Daeth John i amlygrwydd fel meddyg yn Cincinnati; Mary yn wraig i'r Athro William G. Williams, Prifysgol Wesleidd Ohio; gwasanaethodd Timothy fel Swyddog Cyllid yr Unol Daleithiau; a phriododd Margaret â'r Parch. Irwin House. Ar ôl treulio dros bum mlynedd yn gweithio ar ei fferm symudodd William Davis a'i deulu i ddinas Cincinnati i weithio fel adeiladydd. Ar 22 Gorffennaf 1832 ganwyd William Bramwell yn Cincinnati.

Bu'r tad farw yn 1849 yn 56 oed, a'r fam yn 1886 yn 82 oed. Dechreuodd William Bramwell ei yrfa academaidd drwy fynychu Coleg Woodward, Cincinnati, a Phrifysgol Wesleidd Ohio, Delaware, Ohio. Enillodd radd B.A. yn 1852, M.A. yn 1855, a graddiodd yn feddyg yn yr un flwyddyn yng Ngholeg Meddygol Miami, Ohio. Pan oedd ef yn dair ar hugain oed etholwyd ef yn aelod o Fwrdd Addysg Cincinnati am ddwy flwyddedd. Bu ef â rhan amlwg yn sefydlu Llyfrgell

Gyhoeddus Cincinnati, a chymerodd ddiddordeb mawr yn nhrefnyddiaeth Prifysgol Cincinnati pan sefydlwyd. Cyn i'r Rhyfel Gartref dorri allan cafodd ei ddenu at wleidyddiaeth ac yr oedd â rhan fywiog yn ffurfiad y blaid Gweriniaethol yn Cincinnati.



Prifysgol Wesleidd Ohio

Yn dilyn brwydr waedlyd Shiloh (1862) penodwyd ef fel llawfeddyg gan yr Adran Rhyfel i fynd i reoli nifer o agerlongau yn Pittsburgh Landing a dod â'r clwyfedig i'r ysbytai yn Cincinnati. Ymhellach ymlaen yn y Rhyfel Gartref galwyd arno ef i roi gwasanaeth gweithredol ar faes y frwydr, a thrwy gydol haf caled 1864 bu yn llawfeddyg i Gatrawd Cincinnati (37th Ohio Volunteers Infantry). Ar ddiwedd y rhyfel arhosodd ymlaen yn ei swydd hyd 1871. Oherwydd gorweithio cafodd gyfnod o afiechyd ac fe aeth i Ewrob am flwyddyn i gael atgyfnerthiad. Dylai ei ymweliad â Ewrob fod wedi bod yn un o orffwys a phleser iddo, ond gan iddo ef gael gwellhad sydyn a sefydlog fe gysegrodd ei amser yn gweithio ac yn astudio.

Ymddangosodd llawer o erthyglau ganddo yn y cylchgronau Americanaidd gan gynnwys y *Cincinnati Gazette*. Yn 1873 etholwyd ef yn Athro Materia Medica a Therapeutics yng Ngholeg Meddygol Miami, Ohio. Mewn cysylltiad â'i waith fel meddyg bu'n oruchwyliwr Ysbyty Cincinnati, ac yn aelod o Gymdeithas Meddygol Cincinnati, ac yn Llywydd y gymdeithas honno o 1877 i 1878. Bu hefyd yn Llywydd Cymdeithas Meddygol Talaith Ohio, a Chymdeithas Meddygol Americanaidd. Y mae ei gyfraniadau i lenyddiaeth feddygol naill ai wedi cael eu cyhoeddi yng nghyrolau trafodion y nifer cydeithasau meddygol, neu mewn cylchgronau meddygol.

Bu ef â rhan yn ffurfio cynulliad yn Eglwys Fethodistaidd Trinity, Ninth Street, Cincinnati, sefydliad a ddaeth i gael ei adnabod fel y Clark Institiwt, lle bu ef yn Llywydd ac yn Arolygwr yr Ysgol Sul a gysylltwyd â'r eglwys honno. Roedd yn briod â Miss Fannie R. Clark, merch y Parch. Davis W. Clark, D.D., un o esgobion yr Eglwys Fethodistaidd Esgobol. Ganwyd iddynt ddau o feibion, a bu farw un ferch.

W. ARVON ROBERTS

Nodyn Golygyddol

Oherwydd anhwylder Robin Jones nid oedd modd trefnu 'pererindod' y Gymdeithas Hanes eleni. Dymunwn yn dda iawn iddo gan edrych ymlaen at fwy o bererindodau dan ei arweiniad yn y dyfodol. Anfonwn hefyd ein dymuniadau gorau i Ysgrifennydd y Gymdeithas Hanes, y Parch. Gwilym O. Jones a'i wraig Margaret sydd wedi symud i gartref newydd mwy cyfleus yng Nghroesoswallt.

Longyfarchidau cynnes iawn i olygyddion y *Gwyllyedydd*. Cyhoeddwyd y 200fed rhifyn o'r cyfnodolyn ym mis Ebrill eleni a chynhaliwyd diwrnod arbennig o ddatliadau yng Nghanolfan Ebeneser, Caernarfon. Cofiw'n gyda diolchgarwch weledigaeth Owain Owain, golygydd cyntaf y *Gwyllyedydd* yn ei ffurf bresennol. Byddai wedi bod yn falch iawn i weld llwyddiant y papur.

Cofiwch fod pob aelod o Synod Cymru yn aelod o'r Gymdeithas Hanes. Cofiwch hefyd fod pob rhifyn o *Bathafarn Bach* ar gael erbyn hyn ar wefan Synod Cymru (www.synodcymru.org.uk).

William Owen Jones (“W.O.”) 1894-1980

Rhan 2

Yn yr erthygl flaenorol ceisiais roi darlun o fachgendod fy ewythr “W.O.” yn y Bermo hyd at ei ymadawiad â'i gartref yno, yn fachgen 16 oed (yn y flwyddyn 1910), i ddechrau ei brentisiaeth fel fferyllydd mewn siop yn y Drenewydd. Yng nghwrs yr erthygl mentrais ddisgrifio ei hanes rhwng y dyddiad hwnnw a'r flwyddyn 1924, pan ddychwelodd i'r Bermo o Lerpwl wedi “cwaliffeio” (chwedl yntau), nid yn unig fel MPS (yn fferyllydd cymwys a phrofiadol) ond hefyd fel MRCVS o Brifysgol Lerpwl (ac felly'n filfeddyg cyflawn a chymwys) – heb sôn am y tair blynedd a dreuliasai yn lifrai'r fyddin rhwng 1916 a 1919. Mentrais ddisgrifio'r hanes hwnnw fel “saga rhyfeddol o gyffrous a diddorol” a oedd hefyd yn “brawf eglur o'r rhuddin cymeriad yn ogystal â'r gallu ymenyddol oedd wedi bod ynghudd dan wyneb y bachgendod anystywallt ac anghyfrifol (fel yr edrychid arno, yn ddiau, gan deulu ac ysgol fel ei gilydd) yn y Bermo yn negawd cyntaf yr ugeinfed ganrif”. Amcan yr erthygl bresennol yw cyfiawnhau'r honiad hwnnw trwy olrhain yn fras – a hynny ar sail atgofion y gwrthrych ei hun fel y cofnodwyd hwy ar dâp gan Robin Gwyndaf ychydig cyn ei farw yn 1980 – y blynyddoedd ffurfiannol hyn, sef 1910-24, yn hanes W.O.

Ys dywedodd W.O. ei hun wrth gofnodi'r sgwrs rhyngddo a'i fam y noson cyn iddo gychwyn am y Drenewydd:

O'n i ddim isio bod yn gemist mwy na isio cur yn 'y mhen, ond ma'n debyg 'mod i'n hogyn drwg, a mam isio ca'l rh'wun i nghontrolio fi, ma'n siŵr.

A mynd fu raid! Yr oedd Laura Jones eisoes, heb ymgynghori â'i mab, wedi talu deugain punt i gael ei brentisio i fferyllydd o'r enw Andrew Breeze yn y Drenewydd – wedi arwyddo *Indentures*, a'i rwymo i weithio'n ddigyflog am dair blynedd. Wrth gwrs, roedd yn rhan o'r cytundeb ei fod yn cael ei lety a'i fwyd am ddim gyda'r bos a'i deulu yn eu cartref uwchben y siop.

Yn fuan wedi iddo ddechrau gweithio yn y siop, cyfarfu W.O. ag *Indian Prince* a fyddai'n dod i aros yn y Drenewydd, a daeth y ddau yn ffrindiau mawr. Yr oedd y cyfhill newydd yn ymddiddori'n fawr mewn ffotograffiaeth, a phan fyddai W.O. ar ambell gyda'r nos yn gofalu am y siop ar ei ben ei hun, byddai'n mynd ag ef i'r ystafell dywyll a dysgu iddo sut i ddifelopio'i luniau. Canlyniad hyn oedd i'r tywysog ddod (chwedl W.O.)

yn râl ffrind i mi ... ddigon o bres gynno fo; o' gynno fo bob amser lond 'i law o *sovereigns*. A dyma fo'n deud 'tha i, “*Will you come for a holiday to Blackpool?*” “*I'll ask the boss can I come*” medde fi, a dyma fi'n deud, “*If I can come, I'll be in the station*”. O'dd o'n mynd bore wedyn. A dyma fi'n gofyn i'r bos gawn i fynd. Na ch'wn! Ond mi es 'run fath yn union – codi'n fore cyn i neb ddeffro, ac *off* â fi – dengid, 'nte! A mi es i Blackpool efo'r *Prince* 'ma ac o'en ni'n aros yn yr *Hydro* – byw fel *fighting cocks*, 'nde! Wedyn medde fo, “*We'll go over to the Isle of Man*”. A drosodd â ni i'r *Isle of Man*, aros yn fanno wedyn. Fuo' ni ffw'r am fis. A phan ddeuon ni nôl i'r Drenewydd, y peth cynta' ddaru'r bos oedd 'ngyrru fi adre' at 'y mam, a llythyr efo fi. Dyma fi adre' a rhoi'r llythyr i mam. Clustan gan 'y mam – ac un arall! Ond drannoeth dyma hi'n 'y mhacio fi'n ôl ar y trê, a *note* efo fi. Yn ôl yr *Indentures* y **fo** o'dd yn gyfrifol amdana' i, nid y **hi** – *he was responsible!* A mi es yn ôl i'r siop wedyn. Fedre fo ddeud dim byd. O'dd o'n costio dim byd iddo fo, chi'n gweld – ac o'dd o 'di safio mwyd i, 'ndoedd!!

Fe gofia'r rhai a ddarllenodd fy erthygl gyntaf am W.O. fod



Laura Jones wedi rhybuddio'i mab, cyn iddo adael cartref, i fod yn ofalus iawn yn ei berthynas â'r merched a fyddai'n siŵr o gael eu denu ato. “Er dy fod ti'n fab i mi,” oedd ei geiriau wrtho, “w't ti ddim yn bad lwcian, a mi fydd dy demtasiwn di'n fwy. Paid ti **byth** â chymyd mantais ar eneth ddiniwed.” Ac yn wir, ni bu'r hogyn deniadol ei olwg yn y Drenewydd yn hir cyn iddo fachu ar gariad!

Nyrs o'dd hi, ac o'n i'n meddwl bod yr haul yn codi, 'ddoch chi, hefo'r nyrs 'ma. A mi es â hi adre i'r Bermo, i'w hintrodiwsio i mam. O'n i 'di sgwennu at 'y mam, a gofyn gawn i ddod â hi, a hithau wedi ateb: “Dwi'n disgwyl ddoi di â phob un o dy *young ladies* i mi gael golwg arnyn nhw.” A dyma fi'n mynd â hi, a mam yn gneud te “wrth y mast” iddi! Ar ôl te, ro'n i wedi mynd allan o'r stafell am 'chydig funudau, a gadael y ddwy yn sgwrsio. Yn y man mi ddois yn ôl a sefyll yn ddistaw tu allan i'r drws yn gwrando. A dyma fi'n clywed mam yn deud wrthi, “Pidiwch â'i briodi o nes bydd o wedi cwaliffeio, 'newch chi. Dydio 'di ennil 'riod 'run ddime.” A be oedd y canlyniad? Mi ges i'r sac yn syth yndo? Roth hi'r *chuck* i mi *straight away* wedyn.

Yn y man daeth W.O. a'i fos i well dealltwriaeth â'i gilydd. Daeth y llanc i werthfawrogi'r hyfforddiant trylwyr a dderbynai. “O'ch chi'n câl *apprenticeship* iawn 'radeg hynny,” meddai'r henwr wrth adrodd ei hanes. A daeth Andrew Breeze yntau i sylweddoli bod ganddo brentis deallus a medrus ac un y gellid ymddiried ynddo i ysgwyddo cyfrifoldeb pan godai angen. Ymhlith yr amrywiol brofiadau a gafodd wrth ddilyn ei orchwyl, y mae un sy'n werth ei adrodd ar gyfrif y diddordeb hanesyddol a berthyn iddo. Dyma sut y cofnodwyd atgofion W.O. ei hun am y digwyddiad:

Dwi'n cofio amser lecsiwn 1912. David Davies Llandinam oedd y *Liberal Candidate* yr adeg hynny. O'dd gynno fo faniger yn y siop cemist. [Mae'n ymddangos bod y perchennog, Mr Breeze, erbyn hyn, wedi riteirio o redeg y siop o ddydd i ddydd]. Mr Downing oedd ei enw; o'dd o 'roed 'di cwaliffeio, ond bod o 'di bod yn yr *Indian Army* adeg yr *Indian Mutiny* ac wedi cael profiad o waith *Dispenser* yn fan'no – wedyn o'dd o'n gneud yn iawn, *under supervision*, wrth gwrs. R'w ddiwrnod yn ystod y lecsiwn, ro'dd Downing a phawb arall wedi mynd i'w cinio, a fi o'dd yr unig un yn y siop. Mi ddo'th 'na r'w ddynes i mewn, wedi ca'l 'i hitio efo potal ar ochr ei phen, ac o'n i'n sgwrsio efo hi ac yn atendio i'r *wound* 'ma, ac o'n i'n gweld hi'n ddynes nobl iawn. A dyma hi'n deud 'tha i mai Mrs Pankhurst o'dd ei henw' a' bod hi wedi dod i Drenwydd adeg y lecsiwn i ymgychu dros *vote for women*. Ond ro'dd ne deimlade uchel iawn yn 'u herbwn nhw yn *Newtown* ar y pryd. O'n i'n gofidio'n arw fod hi wedi ca'l 'i hambygio felly, ac ar ôl trin yr anaf mi es â hi fyny staer, a mi gafodd Mrs Pankhurst bryd o fwyd gan Mrs Breeze.

Mae'n ymddangos bod Mr Downing, goruchwyliwr y siop cemist, yn ŵr aml ei doniau a'i ddi-ddordebau. Yn ei oriau hamdden byddai'n rhedeg *Concert Party* ac yn mynd â'r cwmni o gwmpas i godi arian tuag at elusennau. Perswadiodd ei gydlafurwr, y prentis ifanc W.O., i ymuno â'r cwmni fel *elocutionist*. A dyma rai o atgofion yr *elocutionist* am hynt a helyntion y *Concert Party*:

Y fo – y cyfarwyddwr a'r arweinydd – fydd bob amser yn dewis *programme*, o *repertoire* y cwmni. Weithie fydd e'n *comic*, weithie fydd e'n *less comic* – yn brogram Dy' Sul, 'nte! Dwi'n cofio bod yn Eglwys Dolwar r'w ddiwrnod, yn rhoi *concert* tuag at yr Eglwys, ac o'dd o 'di dechre efo *comic song* – a fuo raid i wraig y ficer fynd ato fo a deud 'tho fo am stopio, a gorfod inni newid y *programme*. Un waith, ar ganol y *programme*, dyma fo'n deud 'tha i, "*Do you see that lady there, and her daughter?*" "*Yes,*" medde fi. "*Well, we're going to her house for supper tonight,*" medde fo. "*Have you been invited?*" "*No, but you and I are going,*" medde fo 'tha i. A 'dwn i ddim sut y cath o wahoddiad, ond mi euthon on dau, a ma'n rhaid eu bod nhw wedi lladd mochyn, ac o'dd na frôn ar y bwr', ac o'dd o reit neis ac o'n i wedi enjoyio fo'n arw. A dyma fo'n deud, "*Mrs Downing is very fond of brawn,*" medde fo'n 'te. A dyma'r wraig yn torri tafelli ohono fo iddo ac yn ei lapio i fyny iddo fo. Ar gefn beics o'ddan ni wedi mynd yno, a dyma gychwyn am adre ar y beics. O'dd gen i olau ar fy meic, a fi oedd yn mynd yn gynta, a fo'n dilyn yn fy ngola i. 'Doedd o ddim yn gweld yn dda iawn, ac o'n i'n sbïo rownd weithie i edrych o'dd o'n olreit. Ymhen tipyn o'n i 'di golli fo, a mi es yn ôl i chwilio amdano fo. A dyna lle 'odd o, 'n byta'r brôn w'ch chi. Dwi'n siŵr fod 'ne ddau bwys o frôn yno, a mi bytodd o i gyd ar ochr y ffor'. 'Ron i'n misio deall lle o'dd o'n medru roid o!!

Felly y pasiodd tair blynedd ei brentisiaeth yn ddigon difyr i W.O., ac erbyn y diwedd yr oedd yntau a'i fos/hyfforddwr wedi dod yn dipyn o lawiau. Yr oeddent yn gwerthu pob math o bethau heblaw pethau arferol siop cemist – hade i'r ffarmwrs a phethau felly. Hen fusnes traddodiadol, yn cyflenwi anghenion bro amaethyddol eang yn bennaf, oedd yr eiddo Andrew Breeze, ac wedi gweithio yno am dair neu bedair blynedd yr oedd y prentis ifanc wedi dysgu llawer, nid yn unig am fferylliaeth ond hefyd am amrywiol agweddau bywyd a gwaith y gymuned amaethyddol; byddai'r profiad hwnnw o'r pwys a'r gwerth mwyaf iddo yn nes ymlaen pan droes at filfeddygaeth fel ei brif yrfa. Yn y cyfamser, fodd bynnag, yr oedd bryd y llanc ar ennill ei MPS, ac i wneud hynny byddai'n rhaid iddo fod yn nes at *School of Pharmacy*. Wedi cwblhau ei brentisiaeth, felly, fe gafodd W.O. le fel *junior assistant* efo ffyrn yn Ellesmere Port, ac oddi yno cafodd fynd i'r *School of Pharmacy* yn Lerpwl

am hanner diwrnod bob wythnos i ddilyn cwrs rhan amser ar fferylliaeth. Yn y man, symudodd i Lerpwl ei hun a gweithio i gwmni o fferyllwyr yn Bootle am hanner pob wythnos, gan fynychu'r coleg am yr hanner arall. Ond erbyn ei flwyddyn olaf yn y coleg, yr oedd wedi rhoi'r gorau i weithio yn y siop cemist, fel y dengys yr atgofion a ganlyn:

...fyddwn i'n ffindio fod y dyrnodie hynny yn y siop yn interffirio efo'r *lectures*, wedyn es i weithio i'r Docie. Tynnw 'ngholer wedi mynd allan o'r *lodging* 'nte, a rhoi myfflar am y ngwddw, a lawr â fi i'r Docie – i'r ciw am y *dock labour*, 'nte – ac os byddech chi'n lwcs mi gaech *job*. Un diwrnod, fues i'n lwcs iawn; ddaru'r *chap*, rhyw Wyddel, oedd yn bartnar imi, syrthio a thorri'i fraich, a mi rois i ei fraich mewn *sling*, dechweld – o'n i'n gwbod *first aid* yn o dda – a chan fod y doctor yn hir yn dŵad, mi dendiais y fraich, *splints* a phob peth, wchi. A 'dyn pan ddoth y doctor dyma fo'n gofyn pw' wnath hwn. Wedyn oedd y bois ma'n meddwl mai doctor o'n i; o'n i'n clywed un yn deud wrth y llall, "*I knew he was a Doctor, knocked off the rolls – he's performed an illegal operation*". 'Aru mi adel llonydd iddyn nhw feddwl hynny. A'r *result* oedd, pan es i i'r ciw diwrnod wedyn dyma'r *putter on*, echweld, yn chwilio amdana' i. "*Hey, come on you*". Ar ôl hynny, os gwele fo fi yn y ciw, mi ges i bromosion – o'n i 'di cal addysg, dechweld – yn lle whilio'r hen drycie ne, y cwbl o'n i'n 'neud wedyn o'dd cymryd nymbars y *bales*; ac o'n i'n siŵr o *job*, ac felly ges i ddigon o bres i gario 'mlaen. Ddim ond am fod y boi 'na 'di torri'i fraich. Wel, wel!

Erbyn iddo gwaliffeio (chwedl yntau) yn MPS yn 1916, yr oedd W.O. wedi bod yn Lerpwl am ddwy flynedd, yn lletya yn Garnet Avenue, Kirkdale ac yn aelod yng nghapel y Wesleaid Cymraeg yn Sellow Lane. Y gweinidog yno ar y pryd oedd y pregethwr enwog (un o hoelion wyth yr enwad) John Roger Jones:

O'ddwn i'n ffond iawn o wrando ar John Roger – a weithie mi fyddwn i'n mynd i wrando arno fo yn Bootle, 'nte, a dyna sy'n rhyfedd. 'Sgynna'i ddim co' imi 'rioed glywed J. Roger yn ail bregethu 'run un bregeth. Er mod i 'di bod yn gwrando arno fo mewn dau wahanol gapel. Ie – *Oh, he was great!*

Roedd gan W.O. air uchel hefyd i bennaeth ei goleg. Meddai yn yr atgofion (a recordiwyd, cofiwch, tua diwedd y 1970au):

Humphrey Jones oedd y *School of Pharmacy* – 'dech i 'di clywed am Humphrey Jones yntydech – mae o newydd 'i gladdu ers ryw ddwy flynedd yn ôl. Ie, yfo o'dd bia'r coleg yr adeg hynny, ac o'n i'n un o'r rhai cynta fuo efo fo fel stiwdent. Ond a deud y gwir, o'n i'm yn licio'r *job* o gwbl – a dyna pam es i allan ohoni, a mynd yn Vet.

Ond ni ddigwyddodd y newid cyfeiriad hwnnw tan ar ôl y Rhyfel, a oedd ar gerdded ers 1914. Yn fuan ar ôl cwaliffeio fel fferylllydd yn 1916, ymunodd W.O. â'r Fyddin, ac yno y bu tan ddiwedd 1919, gan dreulio'r rhan fwyaf o'r amser yn yr Aifft a Phalestina. Pan ofynnwyd iddo beth roedd yn ei gofio fwyaf am y cyfnod hwnnw, ei ateb oedd:

O – cwarfod un o'r dynion gore aru mi gwarfod erioed – Professor David Williams, Aberystwyth. Fo oedd 'n caplan – ar y 53rd; er fod gynno fo geffyl at i wasanaeth, weles i rioed mono fo'n i reidio fo – un o'r bois o'dd ar gefn i geffyl o wastad, a fynta wastad fyny'r lein efo'r bois. O'n i'n ffond iawn o Davy Williams – *he was a great fellow*. Dwi'n cofio fo'n claddu Major o Benrhyndeudraeth ar Fynydd 'r Olewydd, a finne fel *escort*. O'n i mewn Hospital yn Jerwsalem ar y pryd, wedi cael 'nghlwyfo. A Professor Davy Williams yn deud 'tha fi (am y Major): "*Wyddoch chi be'?* O'dd ne fwy o sens yn bys bach y dyn yma nag ym mhen yr *Headquarters Staff* efo'i gilydd!" O'dd o ar fin mynd adref, wedi bod yno flynyddoedd efo'r Army (a Gwilym Williams, Tŵr Gwyn Bangor a ddaeth yno yn 'i le fo). A finna'n gofyn

iddo, “Wel sut dechi'n teimlo'n mynd adref, Professor?” medde fi 'nte. “Wel, deu y gwir 'tha chi,” medde fo, “f'ddai reit falch o gal mynd adra; dwi'n cal dim byd yn fan hyn ond *multitude of roving thoughts*”. A dwi'n cofio fo'n pregethu yn Wadi-el-Jib, ac yn rhoi i destun allan – “A mi a fyddaf fel gwllith i Israel,” medde fo 'nte, ac yn pregethu fanno. A hen “organ” fawr y Twrcs yn tanio uwch yn penne ni, a rhywun yn deud, “Weitiwch i'r organ fynd cyn dechre canu'r emyn” – o'dd o'n boddni ni 'nte. 'Mhen blynyddoedd wedyn, pan o'n i'n stiwdent yn *University Lerpwl*, Professor Davy Williams yn pregethu i'r Student Christian Movement yn y Cathedral. Ac ar ôl y gwasanaeth, dyma fo'n deud 'tha i, “Glywsoch chi'r bregeth yna o'r blaen, W.O.?” medde fo. “Do,” ebe fi, “Wadi-el-Jib – *And I will be like the dew to Israel*,” medde fi. Dyna'i bregeth o, 'run un ag o'dd yn Wadi-el-Jib, ie wir.

Cyn cael ei ollwng i ddod adref yn 1919, treuliodd W.O. gryn amser mewn canolfan o'r enw Cantara yn yr Aifft.

Yn Cantara oedd yr *Headquarters* lle byddai'r *Troops* yn dod i lawr o'r lein ac yn cael eu disbandio, 'chweld, a chael i gyrru i'r wlad yma 'nte, ar ddiwedd y Rhyfel. Ac o'dd ne Achos Cymraeg yno, yn cwarfod bob Sul. Ac one rhw frawd o Rhosllannerchrugog yn y cwmni. D'odd o ddim yn wnidog na dim byd, ond o'dd o'n pregethu, ac os bydde hwnnw'n pregethu ar ddydd Sul fydde'r lle'n orlawn. Ond fuo raid i mi fynd i'w weld o i'r *Canteen*, nos Sadwrn a thalu am beint iddo fo: “Beth am ddod i bregethu fory?” “Do i”. “Reit”. Peint o gwrrw, a cymyd un efo fo, 'nte – cwrw'r *Army* oedd o; w'ath i chi yfed diod dail ddim, odd o ddim llawer gwell. Ond mi fuo na un cyfnod pan odd yr *Officials* – y caplaniaid – efo ni. Mi fuodd na un yno a fuodd efo'r Annibynwyr yn Rhyl – Edwart Williams dwi'n meddwl oedd i enw fo, M.A. Odd o'n dod i lawr weithie. Wedyn o'ne Mr Hughes – *Gabriel* Hughes, efo'r Wesleaid – oedd ynta'n dod weithie – o Alexandria – o'ne le yn fanno hefyd, dechweld. Odde nhw ddim yn dod yn amal iawn i Cantara – yn yr anialwch o'dd Cantara, dechweld, yn ymyl y Môr Coch a'r *Suez Canal*. Ar nos Sul fydde'r gwasanaeth, a fi fydde'r – be galwch chi o – y pen blaenor, neu'r unig flaenor o ran hynny! – a fyddwn i'n mynd rownd efo'r llyfre *hymns*, a'u nôl nhw: “Hei! Gwasanaeth Cymraeg heno. Ty'd, cofia di rwan!” Ond fues i roed yn pregethu – dim byd felly, ond mod i'n hel y bois at i gilydd, a gofalu am y llyfra.

Wrth ymuno â'r fyddin, roedd W.O. wedi cadw'n ddistaw ynglŷn â'i gymwysterau fel *chemist* a *dispenser*:

O'n im isio bod yn *dispenser*, dechweld – hen job annifyr ydi job *dispenser* yn yr *Army*, yn enwedig i fyny'r lein; y cwbl oeddech chi'n neud odd ista ar y *Medical Panels*. O'dd well gin i fod efo'r bois, dechweld.

Ymhlith y “bois” y daeth W.O. ar eu traws ym Mhalestina yr oedd rhyw hogyn o Sir Fôn a ddaeth trosodd at ei gwmni ef am sgwrs un diwrnod, pan oedd Professor David Williams yn digwydd bod yn y cwmni. Wrth edrych tua'r gorwel dyma nhw'n gweld rhabin o gamelod, “carafán” ys dywedir, yn symud yn araf tuag atynt.

Wrth i'r camelod nesáu, dyma'r boi, y bachan 'ma o Sir Fôn yn deud “Ddylwch amdana' i,” medde fo 'nte, “yn cerdded bob cam o Lannerchymedd i Gaergybi ac yn talu swllt am weld un o'r diawled”. 'Ddylies i base Professor Williams yn marw o chwerthin am ben rhen foi'n deud ei fod wedi talu swllt am weld un camel, a rwan yn cael gweld dwsine ohonyn nhw am ddim!

Wedi adrodd y stori ddoniol yma, y mae W.O. yn sôn amdano'i hun tua hanner canrif yn ddiweddarach yn digwydd ymweld â Llanerchymedd wrth fynd ar ei deithiau o gwmpas ffermydd Sir Fôn i destio anifeiliaid rhag y *tuberculosis* (y job a

gymerodd ar ôl ymddeol o'i bractis milfeddyg yn Llanrwst). Daeth stori'r camelod i'w feddwl yn syth, a theimlodd ryw hiraeth mawr am gael gweld yr hen gyfaill os oedd o'n dal yn fyw – ond ar ôl cymaint o amser ni allai yn ei fyw gofio enw'r boi. Dyma fo'n dechrau holi pobl yr ardal, gan adrodd stori'r camelod wrthynt:

O'r diwedd dyma ryw ddydd yn deud 'tha i, “Dwi'n siŵr mai hwn a hwn ydi o – ma'n swnio'n debyg iawn iddo fo.” “Wel, lle ca'i hyd iddo?” medde fi. “Wel, cerwch i Bensarn,” medde fo, a mi roth enw'r tŷ imi. A dyma fi'n deud 'thyf f'hun, tro nesaf yr a i trwy Bensarn mi alwa i i'w weld o.

Ac felly y bu, ond er mawr siom iddo, fe gafodd W.O. bod yr hen gyfaill wedi marw ychydig ddyddiau cyn iddo alw.

Cyrhaeddodd W.O. Bensarn yn rhy ddiweddar i fedru adnewyddu ei gyfeillgarwch â'i hen gydfilwr o Lannerchymedd. A thrist yw gorfod cofnodi iddo gyrraedd yn ôl i'w gartref yn y Bermo ym mis Rhagfyr 1919 yn rhy ddiweddar i gael ei groesawu gan ei annwyl fam, yr hynod Laura Jones; buasai hi farw yn 60 oed ar y 7fed o fis Mai, 1917. Yn rhyfedd iawn, nid yw W.O. yn ei atgofion am ei brofiadau yn y fyddin yn sôn am dderbyn y newydd brawychus o drist am farwolaeth ei fam, er ei fod yn cofnodi'r ffaith fod ei fam wedi ei chladdu erbyn yr amser y dychwelodd adref o'r Rhyfel. Ond ymhlith y papurau a adawodd ar ei ôl daethpwyd o hyd i lythyr byr a sgrifennodd ei fam ato o'i chartref (Oak House, 5 Marine Road, Barmouth), yn ddyddiedig *April 28 1917* (dim ond naw diwrnod cyn ei marwolaeth – mae'n fwy na thebygol mai hwn oedd y llythyr olaf a dderbyniodd ganddi, a'i fod wedi ei drysori a'i gadw'n ofalus). Nid yw'r llythyr yn cynnwys unrhyw awgrym o'r cyfeiriad y postwyd ef iddo, na chwaith unrhyw arwydd fod y sawl a'i sgrifennodd yn wael ei hiechyd. Yn wir, y mae elfen o hwyl iach yn perthyn i gynnwys y llythyr:

Dear Willie

The eggs we received this Monday. Every one of them smashed. We have cleaned the box and returned today – hope it will come alright. Please don't send anything like that – they are so careless, but we thank you the same.

Annie is doing your socks, silk...I think they will be very nice.

It's very quiet here – no sign of visitors.

Old John Roberts, the late Lion Hotel, is dead.

Annie did not hear afterwards from Bertie. Bessie's school is commencing Monday morning.

Its serious with these submarines sinking that vessel.

I have no news to send you.

Your loving Mother,
L. Jones.

Bertie oedd brawd (hŷn) W.O. ac Annie a Bessie oedd y ddwy chwaer (iau) a'i croesawodd adref i “Oak House”. Trist yw cofnodi i Bessie (Margaret Elizabeth) hithau farw yn 20 oed yng Ngorffennaf 1921.

OWEN E. EVANS

BATHAFARN BACH – Rhif 7 – Haf 2016

© y cyfranwyr unigol

Cyhoeddwr:

Y Gymdeithas Hanes, Synod Cymru yr Eglwys Fethodistaidd

Golygydd:

Dr Lionel Madden, Hafren, Cae'r Gog, Aberystwyth SY23 1ET
ffôn: 01970 617771 epost: madden.aber@btinternet.com
Cyhoeddir yn achlysurol i'w ddosbarthu gyda'r Gwyllyedydd
Argraffwyr: Gwasg y Bwthyn, Caernarfon (01286 672018)